WE NEED TO TALK

The world is hitting record-breaking temperatures and the devastating loss of nature is set to wipe out a million species. The next UK government must take action. We need to ask all politicians the right questions so that we can vote with nature in mind at the General Election.

Your MP will be able to drive change at Westminster and hold the UK Government to account. We are also urging governments and politicians in Wales, Scotland and Northern Ireland to take action.

Governments across the UK must commit to cleaning up our environment and restoring nature.

WHY? The nature we love is in trouble, and the global systems we all depend on are deteriorating faster than ever. We are witnessing this on our own doorstep, with bee species disappearing and plummeting populations of familiar animals such as hedgehogs and puffins.

WHAT DO WE NEED? In Westminster we need an Environment Act that will transform our relationship with nature, setting ambitious new targets for species and habitat recovery and ensuring we can reverse declines in the nature on our doorstep and secure its future.

SO ASK THEM: Will you tackle the extinction crisis and place a legal obligation on the UK government to act for the recovery of nature?

The risk of climate change is now so great that it poses a threat to civilisation itself.

WHY? We are in a race against time to save nature and ensure that today's children inherit a healthy planet to live on. It isn't too late for decisive action. To have a chance of limiting global warming to 1.5°C, the world needs to cut its carbon emissions in half by 2030 and reach net zero by 2045 at the latest.

WHAT DO WE NEED? A ten-year programme of action to put us on the path to net zero emissions. We need to phase out fossil fuels and slash carbon emissions. This should be supported by spending 2% of GDP making our homes, transport and industry as green as possible and restoring habitats to help store carbon, acting as a natural solution to climate change.

SO ASK THEM: Will you help us to lead the world with action to meet a net zero carbon emissions target?

Intensive agriculture is one of the major drivers of wildlife decline and our agricultural policies must change.

WHY? For decades, agricultural policies have failed to consider the environment adequately. This has led to the destruction of wildlife habitats, the overuse of pesticides that harm bees and other pollinators, depleted soil fertility and increased water and air pollution.

WHAT DO WE NEED? New legislation to incentivise nature friendly and sustainable farming methods, and long-term funding to ensure our farming system works for both people and wildlife.

SO ASK THEM: Will you insist on the reform of agriculture and food systems so that subsidies funded by the taxpayer drive nature's recovery and meet our climate goals?

And we need a powerful, independent watchdog to make sure that all these objectives are achieved.

WHY? The scale of the nature and climate emergencies is so great that we need a guarantee that future governments will act, and continue to act, regardless of any economic or political change.

WHAT DO WE NEED? An independent and robust Office for Environmental Protection provided with multi-year funding guaranteed by the UK Parliament .

SO ASK THEM: Will you deliver a green watchdog with teeth to hold the UK government to account and keep us on track for a wilder future?

MAE ANGEN SGWRS ARNOM

Mae tymheredd y byd yn parhau i godi ac mae'r dirywiad dychrynllyd ym myd natur yn mynd i ddifodi miliwn o rywogaethau. Mae'n rhaid i lywodraeth nesaf y DU weithredu. Mae angen i ni ofyn y cwestiynau cywir i bob gwleidydd fel y gallwn feddwl am fyd natur wrth bleidleisio yn yr Etholiad Cyffredinol.

Bydd eich AS yn gallu sbarduno newid yn San Steffan a dwyn Llywodraeth y DU i gyfrif. Rydym hefyd yn annog llywodraethau a gwleidyddion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i weithredu.

Mae'n rhaid i lywodraethau ar draws y DU ymrwymo i lanhau ein hamgylchedd ac adfer byd natur.

PAM? Mae'r natur rydym ei charu mewn trafferth ac mae'r systemau byd-eang rydym yn dibynnu arnynt yn dirywio ar raddfa na welwyd ei thebyg o'r blaen. Rydym yn gweld hyn ar garreg ein drws gyda rhywogaethau o wenyn yn diflannu a phoblogaethau o anifeiliaid cyfarwydd fel draenogod a phalod yn plymio.

BETH SYDD EI ANGEN ARNOM? Yn San Steffan mae angen Deddf Amgylchedd arnom a fydd yn trawsnewid ein perthynas â natur, gan osod targedau newydd uchelgeisiol ar gyfer adfer rhywogaethau a chynefinoedd a sicrhau y gallwn wyrdroi dirywiadau yn y natur sy'n byw ar garreg ein drws a sicrhau ei dyfodol.

FELLY GOFYNNWCH IDDYN NHW: A wnewch chi fynd i'r afael â'r argyfwng difodiant a rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar lywodraeth y DU i weithredu ar gyfer adfer byd natur?

Mae'r perygl o newid hinsawdd bellach mor fawr fel ei fod yn fygythiad i wareiddiad ei hun.

PAM? Cael ei chael yw hi ein bod yn medru achub byd natur a sicrhau bod plant heddiw yn etifeddu planed iach i fyw arni. Nid yw'n rhy hwyr i weithredu'n bendant. Er mwyn cael cyfle i gyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5°C mae angen i'r byd dorri ei allyriadau carbon yn ei hanner erbyn 2030 a chyrraedd sero net erbyn 2045 fan bellaf.

BETH SYDD EI ANGEN ARNOM? Rhaglen weithredu deng mlynedd sy'n ein rhoi ar y trywydd i sicrhau allyriadau sero net. Mae angen cael gwared â thanwydd ffosil yn raddol ac i dorri allyriadau carbon yn sylweddol. Dylai hyn gael ei gefnogi trwy wario 2% o CDG i wneud ein cartrefi, trafnidiaeth a diwydiant mor wyrdd â phosibl ac adfer cynefinoedd i helpu i storio carbon ac i weithredu fel ateb naturiol i newid yn yr hinsawdd.

FELLY GOFYNNWCH IDDYN NHW: A wnewch chi ein helpu i arwain y byd trwy weithredu i gyrraedd targed allyriadau carbon sero net?

Amaethu dwys yw un o'r prif sbardunau ar gyfer dirywiad bywyd gwyllt a rhaid i'n polisïau amaethyddol newid.

PAM? Am ddegawdau, mae polisïau amaethyddol wedi methu rhoi ystyriaeth ddigonol i'r amgylchedd. Mae hyn wedi arwain at ddinistrio cynefinoedd bywyd gwyllt, gor-ddefnyddio plaladdwyr sy'n niweidio gwenyn a pheillwyr eraill, wedi disbyddu ffrwythlondeb y pridd a chynyddu llygredd dŵr ac aer.

BETH SYDD EI ANGEN ARNOM? Deddfwriaeth newydd i gymell dulliau ffermio cynaliadwy sy'n gyfeillgar i natur, a chyllid tymor hir i sicrhau bod ein system ffermio yn gweithio i bobl a bywyd gwyllt.

FELLY GOFYNNWCH IDDYN NHW: A wnewch chi fynnu diwygio systemau amaethyddiaeth a bwyd fel bod cymorthdaliadau sy'n cael eu hariannu gan y trethdalwr yn hybu adferiad byd natur ac yn cwrdd â'n nodau hinsawdd?

Ac mae angen corff gwarchod pwerus, annibynnol arnom i sicrhau bod yr holl amcanion hyn yn cael eu cyflawni.

PAM? Mae maint argyfyngau natur a hinsawdd mor fawr fel bod angen sicrwydd arnom y bydd llywodraethau'r dyfodol yn gweithredu, ac yn parhau i weithredu, waeth beth fo unrhyw newid economaidd neu wleidyddol.

BETH SYDD EI ANGEN ARNOM? Swyddfa Ddiogelu'r Amgylchedd annibynnol a chadarn sy'n derbyn cyllid aml-flwyddyn wedi'i warantu gan Senedd y DU.

FELLY GOFYNNWCH IDDYN NHW: A wnewch chi greu corff gwarchod gwyrdd grymus i ddwyn llywodraeth y DU i gyfrif a'n cadw ar y trywydd ar gyfer dyfodol mwy gwyllt?